## Darlith SIAN RHIANNON yn y Brifwyl yng Nghasnewydd

# Y Wasg Gymraeg yng Ngwent

Y GWEINIDOGION oedd prif gynheiliaid yr iaith a'r diwylliant a'r wasg yng Ngwent. Roedd yr holl weinidogion adnabyddus hyn yn gweinidogaethu o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd, roedd llawer iawn o weisg hefyd wedi'u gwasgu i'r un ardal fechan. 'Wy wedi sôn eisoes am Bont-y-pwl, Tredegar, Glynebwy, Brynmawr a'r Blaenau, ond ma 'na ragor credwch fi neu beidio.

Yn Abertyleri gerllaw'r Blaenau sefydlodd John Williams, gŵr o Frynmawr a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, wasg argraffu yn 1867.

Roedd 'na hefyd wasg ym Mlaenafon, ond *cyn* sefydlu'r wasg honno bu'r Parch John Rees, gweinidog y Bedyddwyr yn Broad Street, yn *cyhoeddi* llyfrau. Os edrychwch chi er enghraifft, ar gyfrol o'r enw *Arweinydd, sef detholiad o bregethau D. Hughes, Talywaun* fe welwch ei fod yn enwi J. Rees Blaenafon fel yr argraffydd, ond yn ôl hanesydd y wasg, Ifano Jones, William Jones Casnewydd a wnaeth y gwaith argraffu ar ran John Rees.

Ac mae'n debyg mai dyna'r arferiad hyd nes i Evan Prosser, gŵr o Lanelli - nid tref y sosban, ond Llanelli ar gyrion Sir Fynwy a Sir Frycheiniog - agor gwasg yn y dre' yn 1868.

* * *

CYN GADAEL y rhestr yma o weisg, sy'n mynd braidd yn faith erbyn hyn, rhaid cyfadde', rhaid sôn am ddau le arall sy'n arwyddocaol yn hanes argraffu a chyhoeddi yn Sir Fynwy, sef y Gelli-groes a Chasnewydd. Wn i ddim sawl un ohonoch chi sy'n gwybod ble mae'r Gelli-groes, ond gobeithio y cewch chi gyfle i fynd am dro yno. Yn ôl Cynddelw

*Man hyfryd iawn yw'r Gelligroes,*
*Bur eirioes le i bererin*
*Lle mae Aneurin, prifardd Gwent*
*A'i dalent fel aur dilin.*

Canodd hyn ar ôl iddo gael croeso mawr yng nghartre Aneurin Fardd pan oedd ar daith bregethu yn yr ardal yn 1847.

Fel Brychan, roedd Aneurin Fardd yn un o *gymeriadau*'r byd llenyddol yn y sir. Ganwyd e' ym Medwas yn fab i Ieuan Brydydd Gwent neu Sion Fardd, melinydd a symudodd o Fedwas i'r Gelligroes i gadw melinau Penllwyn. Yn 1845 sefydlodd y tad a'r mab gymdeithas Gymreigyddol y Gelligroes a arferai gyfarfod yn nhafarn yr Hanner Ffordd. Daeth eisteddfodau'r Gelligroes yn achlysuron o fri gydag enwogion lleol fel Cynddelw, Gwilym Ilid a Gwrwst yn cystadlu ynddyn nhw.

Yn un o'r eisteddfodau hyn yr enillodd Cynddelw wobr am ei draethawd ar y mesurau barddol, y traethawd a argraffwyd wedyn gyda rhagair dadleuol gan Aneurin Fardd o dan y teitl, *Tafol y Beirdd*. Yma i'r Gelligroes hefyd y daeth Islwyn i fwrw'i brentisiaeth fel bardd a daeth Aneurin yn un o'i athrawon barddol.

* * *

UN UCHELGAIS gan Aneurin oedd cyhoeddi hanes enwad y Bedyddwyr, ac i'r perwyl hwn y sefydlodd argraffwasg yn seler tafarn yr Hanner Ffordd yn mis Rhagfyr 1861. Ond er iddo argraffu'r *Bedyddiwr* yma am gyfnod ynghyd â nifer o bamffledi Cymraeg, ni lwyddodd i wireddu ei freuddwyd, ac oherwydd anawsterau ariannol difrifol ymfudodd i'r Amerig yn 1864. Fel y gwelsom ni roedd Nefydd wedi bwriadu cyflawni'r gwaith hwnnw pan sefydlodd ei wasg yntau yn y Blaenau yn yr un flwyddyn. Roedd ymadawiad Aneurin yn siom i'r disgybl barddol, Islwyn. Cyfansoddodd gerdd i'w athro, sy'n dechrau:

*Mae llawer blwyddyn, annwyl frawd,*
*er pan gymerem ni*
*Ein hwyrol daith, ein llonydd rawd*
*ar ymyl llonydd li*
*Yr hen Sirhywi ...*

ac mae'n diweddu,

*Fe hoffai cyfeillgarwch pur gael byd rhy fach i fôr,*
*Rhy gyfyng i ysgarol fur, rhy gul i glawdd a dôr,*
*Wrth gofio am ein disgler wawr a hoen ein dyddiau gwell*
*Rwyn beio braidd Columbus fawr am ganfod byd mor bell.*

Er eu bod nhw'n wahanol iawn o ran natur a phersonoliaeth, mae'n amlwg bod Aneurin Fardd wedi cael cryn ddylanwad ar Islwyn, ac yn wir yr oedd ganddyn nhw nifer o bethau yn gyffredin heblaw eu hoffter o farddoniaeth. Roedd y ddau wedi derbyn hyfforddiant fel peirianwyr sifil ac yn rhannu'r un diddordeb yn y cylchgronau a'r papurau neydd.

Roedd Aneurin Fardd byth a beunydd yn llythyru yn y wasg, tra oedd Islwyn, wrth gwrs, yn ymwneud â sawl cyhoeddiad gan gynnwys, *Y Cylchgrawn, Yr Ymgeisydd* a'r *Gwladgarwr.*

Mae peth ansicrwydd ynglŷn â'i union swyddogaeth gyda rhai o'r cyhoeddiadau a bu'n ymwneud â nhw. Gwyddom fodd bynnag mai fe oedd golygydd *Yr Ymgeisydd* a golygydd barddoniaeth y *Cardiff Times*. Ond y bennod fwya diddorol yn ei ymwneud â'r wasg yw'r rhan a chwaraeodd yn y fenter i gyhoeddi papur newydd Cymraeg yng Nghasnewydd yn 1867.

Yn flaenllaw ymhlith cyhoeddwyr y dre yr adeg honno roedd y Cymro Thomas Williams, perchennog y papur *The Star of Gwent*, papur rhyddfrydol a sefydlwyd yn 1859 gyda chefnogaeth Benjamin Hall a'i briod Arglwyddes Llanofer.

Roedd 'na golofn farddol yn y *Star of Gwent* ynghyd ag amryw o erthyglau yn ymwneud â hanes a thraddodiadau Cymru, ac ambell bwt yn Gymraeg. Ond roedd nifer o Gymry blaenllaw'r dre yr adeg honno'n gosod pwysau ar Thomas Williams i gyhoeddi papur newydd Cymraeg.

Ar ôl llawer o drafod a dadlau ymddangosodd rhifyn cynta'r *Glorian* ar ddydd Gŵyl Dewi 1867, ac fel y gwelwch chi wrth ddarllen y dudalen flaen papur oedd hwn a gefnogai 'Fy Rhyddid, fy Iaith, fy Nghenedl a Gwlad fy Nhadau'.

Doedd y tri a oedd yn gyfrifol am olygu'r papur, Llew Llwyfo, Glasynys ac Islwyn ddim yn drindod gytûn bob amser, ond llwyddwyd i gydweithio digon i fedru cyhoeddi dau ar hugain o rifynnau o'r papur. Mae'r cynnwys yn amrywiol a bywiog ac mae Ifano Jones yn disgrifio'r *Glorian* fel un o'r papurau Cymraeg gorau a gyhoeddwyd eriod.

Ond er ei fod yn bapur da, ymddangosodd y rhifyn olaf ar Orffennaf y seithfed ar hugain, 1867. Yn ôl Ifano Jones roedd Thomas Williams yn ŵr tlotach o lawer ar ôl methiant menter **Y** *Glorian* ond yn y rhifyn ola' mae'r golygyddion yn gwadu mai diffyg gwerthiant oedd yn gyfrifol am y ffaith iddo ddod i ben.

*Ar waethaf llu o anfanteision meddid, "gwerthodd ei ffordd, a chyrhaeddodd gylchrediad ddiamheuol o dair neu bedair mil yn wythnosol."*

Wel, un bennod yn unig yn hanes cyhoeddi Cymraeg yng Nghasnewydd yw'r *Glorian*.

* * *

YN WIR, er gwaetha'r holl ddylanwadau Saesneg oedd ar y dre' roedd 'na draddodiad o gyhoeddi Cymraeg yma hyd at y ganrif hon. Cymro Cymraeg o'r enw Evan Lewis agorodd y wasg gynta' yma yn 1810 (mil wyth cant a deg) ond bu'n gyhoeddwr yma am rai blynyddoedd cyn hynny, a gwelir ei enw ar nifer o gyfrolau o emynau a phregethau Cymraeg a argraffwyd ar ei ran ym Mryste. Bu farw yn 1819, ond yn ystod y naw mlynedd y bu'r wasg mewn bodolaeth argraffodd gyfrol o emynau a nifer o faledi, er enghraifft, *Hanes yr Hen wr o'r Coed* a *Chân Newydd o ystyriaeth ar Amser Byr Dyn yn y byd hwn* gan Owen Evans, Casnewydd.

Yn ystod hanner cynta'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd 'na nifer o weisg yn cyhoeddi yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg yn y dref. Yr enwocaf efallai yw gwasg Samuel Etheridge. Siartydd oedd Etheridge ac yn un o gefnogwyr John Frost. Yn ei wasg ef yn y stryd fawr yr argraffwyd holl bamffledi a phosteri'r Siartwyr — fe gafodd llawer o'r posteri a'r pamffledi eu dinistrio gan gefnogwyr y Siartwyr ar ôl methiant y gwrthryfel rhag ofn i'r awdurdodau gael gafael arnyn nhw, — oherwydd gwasg Etheridge oedd un o'r mannau cyntaf a archwiliwyd y bore dydd Llun hwnnw ym mis Tachwedd 1839.

Ond yn ogystal â chyhoeddi deunydd gwleidyddol yr oedd Etheridge, o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi deunydd o natur hollol wahanol. Er enghraifft, un o'i gyhoeddiadau cynharaf oedd *Hymnau Newyddion Argraffiedig gan Samuel Etheridge Gwerthwr a Rhwymwr llyfrau 1812.*

Parhawyd y traddodiad cyhoeddi Cymraeg gan Thomas Williams, perchennog y *Star of Gwent* a'r *Glorian* y soniais amdano'n gynharach, a ddaeth y traddodiad ddim i ben gyda methiant y papur hwnnw yn 1867. Hyd at ddiwedd y ganrif roedd William Jones, aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yng nghapel Ebeneser yn y dref yn cyhoeddi deunydd ei enwad, gan gynnwys y cylchgrawn *Newyddion Da*, 1892-3.

* * *

OND WRTH ystyried cyfraniad Casnewydd i'r byd cyhoeddi yng Nghymru, mae un cyhoeddwr ben ac ysgwyddau'n uwch na'r lleill, a hwnnw yw John Edward Southall. Gŵr o Lanllieni, (Leominster) Swydd Henffordd oedd Southall, Crynwr a oedd wedi dysgu Cymraeg. Roedd yn un o aelodau blaenllaw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (mark one) a sefydlwyd yn 1885 er mwyn ceisio sicrhau lle teilwng i'r iaith Gymraeg ar amserlen yr Ysgolion Bwrdd.

Roedd Southall yn ŵr o flaen ei oes ar lawer cyfri! Yr oedd yn un o'r bobl gyntaf yng Nghymru i sylweddoli gwerth addysg ddwyieithog fel modd i ddiogelu dyfodol y Gymraeg. Defnyddiodd ei wasg er mwyn hyrwyddo'i gred, ac os cymrwch chi gip ar y